Rhif: WG53913

# Fframwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal i Gefnogi Babanod, Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yng Nghymru

Atodiad i Adroddiad Etifeddiaeth Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant.

Wedi'i gyhoeddi: 18 Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

# Cefndir

Mae'r Fframwaith hwn yn ymgorffori gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod creiddiol y Fframwaith hwn yw atgyfnerthu teuluoedd, cefnogi rhieni a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, yn unol â'n hymrwymiad cenedlaethol i Erthygl 18 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Pan fydd plant mewn gofal, dylai hynny fod am gyn lleied o amser â phosibl, ac yn agos at eu cartrefi, fel y gallant barhau i fod yn rhan o'u cymuned – rhwydwaith y plentyn – a chael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phob plentyn arall. Dylai hyn gael ei gefnogi gan system integredig sy'n canolbwyntio ar gydweithio i ddatrys materion mewn partneriaeth drwy ddull hygyrch ac ataliol.

**Diben:**

Diben y Fframwaith yw rhoi diffiniad cyffredinol o Ymyrraeth Gynnar ac Atal y gellir ei addasu gan sectorau.

Mae canllawiau a diffiniadau ar wahân yn bodoli ar gyfer rhaglenni ymyrraeth gynnar ac atal Llywodraeth Cymru, megis Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. Er mwyn cytuno ar yr hyn y dylai'r gwasanaethau hyn ei gynnwys a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal fel rhan o system iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg ledled Cymru, cytunwyd y dylid datblygu fframwaith ymyrraeth gynnar ac atal cyffredinol newydd i Gymru gyfan.

Bydd y Fframwaith hwn yn sicrhau bod y rhannau hanfodol hyn o'r system yn cael eu hystyried yn hanfodol i barhau i ddarparu a datblygu gwasanaethau i fabanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru, gan wneud yn siŵr bod hyn yn rhan o nod systemig i barhau i gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd lle bynnag y bo'n bosibl ac felly leihau'n ddiogel nifer y babanod, plant a phobl ifanc sy'n ymuno â'r system gofal. Nid yw'n disodli canllawiau, diagramau na diffiniadau sy'n bodoli eisoes, ond yn eu dwyn ynghyd mewn un fframwaith cyffredinol.

Y bwriad yw deall a chynnal gwasanaethau cyffredinol, sylfaenol ac eilaidd a'u targedu lle bo angen pan fydd eu hangen ar fabanod, plant a phobl ifanc, ar yr adeg gywir, ac yn y ffordd gywir, fel rhan o ddarpariaeth lawn ledled Cymru. Mae'r dull hwn yn gyson â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n anelu at atal problemau drwy ddull mwy cydgysylltiedig hirdymor.

Dyluniwyd y Fframwaith ar y cyd ag arweinwyr yn y sector cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol ledled Cymru, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru.

# I bwy y mae'r Fframwaith?

Mae'n ddefnyddiol i'n poblogaeth o fabanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Cymru wybod am y Fframwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal hwn a gwybod ei fod yma i gefnogi gwasanaethau ar eu cyfer ym mhob rhan o Gymru.

Dylai arweinwyr ddod ynghyd i ddylunio eu system ymyrraeth gynnar ac atal fel bod gwasanaethau yn gyson ac yn gweithio tuag at nodau a chanlyniadau cyffredin yn unol ag anghenion eu poblogaeth. Nod y Fframwaith hwn yw cefnogi arweinyddiaeth dosturiol a chyfunol wrth ddatblygu gwasanaethau a systemau sy'n canolbwyntio ar y teulu a'r plentyn ac sy'n atgyfnerthu teuluoedd.

Mae'n bwysig bod gan bob gweithiwr proffesiynol yn y sector gofal cymdeithasol, y sector iechyd, y sector addysg a sectorau eraill sy'n cefnogi babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd iaith gyffredin, a diagram a rennir i esbonio'r trawstoriad o ddarpariaeth a dargedir yn briodol pan fo angen. Yn ogystal ag ymarferwyr, y gobaith yw y bydd gofalwyr maeth, gwarcheidwaid arbennig a gofalwyr sy'n berthnasau yn defnyddio'r Fframwaith.

Mae comisiynwyr yn ystyried anghenion eu poblogaeth ac yn gweithio gyda darparwyr i ddatblygu a darparu llwybrau priodol at gymorth a gwasanaethau. Bydd y Fframwaith hwn yn eu helpu i dargedu cymorth a diwallu anghenion yn y lle cywir, ar yr adeg gywir.
Gall Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaethau, Rheolwyr Gwasanaethau a Chomisiynwyr ddefnyddio'r fframwaith hwn i sicrhau eu bod yn deall eu darpariaeth ymyrraeth gynnar ac atal a'i rhan yn y system gymorth ehangach.

Mae hefyd yn bwysig inni allu mesur cynnydd ac effaith er mwyn cyflawni ein nod cyffredin o gadw babanod, plant a phobl ifanc yn ddiogel a'u hatal rhag ymuno â'r system gofal. Yn y pen draw, rydym am wella canlyniadau i blant a, lle bo hynny'n ddiogel, cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd. Drwy wneud hyn, rydym am allu lleihau nifer y plant sy'n byw mewn gofal.

# Pam mae Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn Bwysig?

Mae pob plentyn yng Nghymru yn haeddu cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Yn anffodus, mae llawer yn wynebu anfanteision a heriau sy'n effeithio ar eu datblygiad ac yn amharu ar eu hiechyd a'u hapusrwydd yn y dyfodol. Mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal yn darparu cymorth hanfodol i blant a theuluoedd, gan eu grymuso i lywio a goresgyn rhwystrau ac atal eu hamgylchiadau rhag cyfyngu ar eu potensial. Bwriedir i hyn fod yn fodel ar draws gwasanaethau i blant yng Nghymru sy'n darparu dull cyffredinol o gynnig continwwm cymorth integredig a chynhwysfawr i'r teulu cyfan. Dylai hyn fod yn gyson ag anghenion a nodwyd a risgiau i fabanod, plant a phobl ifanc, a dylai ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau.

Mae cymhariaeth Zola ag afon (1970) yn ein hatgoffa bod yn rhaid i ni fynd *i fyny'r afon* i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol heriau yn hytrach nag aros i lawr yr afon i fynd i'r afael ag argyfyngau. Mae hyn yn golygu:



- **Cyfle Cyfartal i Ddatblygu:** Sicrhau bod gan bob plentyn sylfaen gadarn ar gyfer iechyd corfforol, addysg, a llesiant emosiynol, ni waeth beth fo'i gefndir.

- **Mynd i'r afael ag Anfanteision:** Mae llawer o blant yn wynebu heriau economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol a theuluol. Mae ymyrraeth gynnar yn lliniaru'r anfanteision hyn gyda'r nod o darfu ar gylchoedd amddifadedd, esgeulustod, a dewisiadau gwael o ran ffordd o fyw.  Mae ymyrraeth gynnar hefyd yn allweddol i gefnogi ffactorau amddiffynnol megis cydberthnasau agos a diogel, cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, cysylltiad â chymunedau, a hunan-barch cadarnhaol.
- **Canlyniadau Gwell:** Gall strategaethau rhagweithiol atal neu leihau nifer y canlyniadau negyddol hirdymor, gan gynnwys iechyd gwael, tangyflawniad addysgol, ac allgáu cymdeithasol.
- **Cymorth i Deuluoedd:** Grymuso rhieni a gofalwyr i greu amgylcheddau meithringar sy'n cefnogi gwydnwch, iechyd a datblygiad plant.
- **Cydgyfrifoldeb:** Creu cymunedau diogel a chynhwysol sy'n diogelu ac yn meithrin babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd, gan sicrhau eu llesiant a'u datblygiad.

# Diffinio Ymyrraeth Gynnar ac Atal

Mae ymyrraeth gynnar yn ymwneud â nodi a chefnogi babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n wynebu risg o ganlyniadau andwyol cyn i broblemau waethygu. Mae atal yn adeiladu ar hyn drwy ymgorffori adnoddau a mesurau ataliol mewn cymdeithas, gan leihau tebygolrwydd heriau neu niwed yn y lle cyntaf. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- **Mentrau Cymunedol:** Cymorth cyffredinol i bawb, megis grwpiau cymunedol, gwasanaethau ieuenctid, gweithdai cymorth i deuluoedd neu raglenni ymwelwyr iechyd, sy'n hybu llesiant cyfannol.
- **Rhaglenni Cymorth wedi'u Targedu:** I deuluoedd sy'n wynebu risgiau penodol, megis heriau iechyd meddwl, cam-drin domestig, neu ansicrwydd o ran tai.
- **Ymyriadau Arbenigol:** Cymorth dwys i deuluoedd, plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg uchel, gan sicrhau bod materion yn cael eu datrys yn effeithiol.
- **Gweithio gyda'r teulu cyfan:** Cytunir ar gymorth ar y cyd â theuluoedd, a gwrandewir ar lais y plentyn a'r person ifanc bob amser.

# Sut mae Ymyrraeth Gynnar yn Gweithio?

Mae ymyrraeth gynnar ac atal yn canolbwyntio ar leihau ffactorau risg a chynyddu ffactorau amddiffynnol ar lefel yr unigolyn, y teulu a'r gymuned. Mae'r ffactorau hyn yn rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth, ac mae angen dull amlasiantaethol holistaidd i fynd i'r afael â nhw:

- **Ffactorau Risg:** Gall hyn gynnwys iechyd meddwl gwael rhiant, cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau, a thlodi.
- **Ffactorau Amddiffynnol:** Gall hyn gynnwys cydberthnasau teuluol agos, sefydlog, mynediad at addysg dda, cydberthnasau cadarnhaol â chyfoedion, a rhwydweithiau cymunedol cadarn.

Dylid addasu ymyriadau i amgylchiadau unigryw plant a theuluoedd, gan sicrhau bod help yn gymesur, yn amserol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn. Mae risgiau a nodwyd yn rhoi sylfaen i ymyrryd, ond nid ydynt, ac ni ddylent bennu anorfodrwydd.  Mae

strategaethau effeithiol yn canolbwyntio ar feithrin gwydnwch a sicrhau bod yr adnoddau a'r cymorth cywir ar gael ar y cam cynharaf posibl.

# Gwasanaethau Cymorth Rhyng-gysylltiedig

- **Cymorth Cymunedol:** Gwasanaethau cyffredinol mynediad agored a arweinir gan y gymuned, sy'n hyrwyddo integreiddio a'r gallu i gael gafael ar adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau ymwelwyr iechyd, cwnsela mewn ysgolion, cymorth i deuluoedd, gwasanaethau tai, ieuenctid a chwarae, er enghraifft gwasanaethau i gefnogi teuluoedd plant sy'n aros am asesiad niwroamrywiaeth.
- **Gwasanaethau Cyn-Statudol:** gwasanaethau sydd ar gael drwy hunanatgyfeiriad, atgyfeiriad gan weithiwr proffesiynol neu feini prawf cymhwysedd megis lleoliad daearyddol; ac sy'n darparu cymorth wedi'i deilwra'n agosach megis rhaglenni fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.
- **Cymorth Arbenigol:** Rhaglenni wedi'u targedu sy'n mynd i'r afael â risgiau neu anghenion penodol. Ymhlith yr enghreifftiau mae: CAMHS, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau cam-drin domestig, a gwasanaethau ieuenctid wedi'u targedu.
- **Cymorth Dwys i Deuluoedd:** Ymyriadau penodol i fynd i'r afael ag anghenion lefel uwch a/neu gymhleth ymhlith teuluoedd. Mewn rhai achosion, caiff y cymorth hwn ei dargedu'n uniongyrchol i atal achosion cyfreithiol. Ymhlith yr enghreifftiau mae cynadleddau grwpiau teuluol, timau diogelu, Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a gwasanaethau cymorth i deuluoedd gan ddarparwyr arbenigol yn y trydydd sector.

Drwy fabwysiadu dull cynhwysfawr ac integredig, gellir sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, gan gynyddu effeithiolrwydd ymyriadau a lleihau niwed.

# Beth y Gall Ymyrraeth Gynnar ei Gyflawni?

Mae ymyrraeth gynnar briodol, gan gydweithio â rhieni a'r teulu ehangach, yn helpu plant i ddatblygu mewn ffordd iach. Mae'n cynnig cymorth i'r teulu cyfan sydd, yn ei dro, yn creu amgylchedd diogel i'r plentyn ffynnu; ac yn cefnogi cydberthnasau sy'n meithrin gwydnwch ymhlith aelodau'r teulu.

Mae ymyrraeth gynnar yn cyflawni canlyniadau ar draws pedwar dimensiwn allweddol datblygiad plant:

- **Datblygiad Corfforol:** Gwella canlyniadau iechyd, lleihau achosion o salwch yn ystod plentyndod, a mynd i'r afael â chyflyrau y gellir eu hatal megis gordewdra neu oedi datblygiadol.
- **Datblygiad Gwybyddol:** Gwella sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ogystal â llythrennedd a sgiliau datrys problemau sy'n hanfodol i sicrhau llwyddiant academaidd a gydol oes.
- **Datblygiad Ymddygiadol:** Cefnogi'r gallu i reoli emosiynau a lleihau ymddygiadau negyddol.

- **Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol:** Meithrin hunan-barch, deallusrwydd emosiynol, a chydberthnasau teuluol a chymdeithasol cadarnhaol.


At hynny, byddai'r strategaethau hyn yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r prif fygythiadau i ddatblygiad plant yng Nghymru yn uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- **Achosion o gamarfer neu gam-drin plant**
- **Tlodi plant**
- **Annhegwch iechyd**
- **Salwch meddwl rhiant a phlentyn**

# Model Ymyrraeth Gynnar ac Atal Cymru

Mae'r model canlynol, a ysbrydolwyd gan wersi a ddysgwyd a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru a'r system iechyd a gofal cymdeithasol ledled y wlad, yn cysoni gwasanaethau â lefelau cynyddol angen a risg, gan sicrhau safbwynt iechyd a gofal cymdeithasol, ac addysg. Ni fwriedir i'r diagram hwn gael ei ddefnyddio yn lle diagramau sy'n bodoli eisoes, megis y model ffenestr flaen, ond yn hytrach i esbonio newidiadau a risgiau yn y system ymyrraeth gynnar ac atal gyfan.

Mae rhywfaint o'r cymorth y manylir arno yn y diagram yn fwy arbenigol a dwys, ac mae rhywfaint ar gael yn gyffredinol.




**Y Model Pyramid:**

- **SYLFAENOL Cymorth Cyffredinol (Atal):** Gwasanaethau sydd ar gael i bob baban, plentyn, person ifanc a theulu, sy'n canolbwyntio ar integreiddio yn y gymuned a dulliau atal cyffredinol.
- **EILAIDD Cymorth Wedi'i Dargedu (Ymyrraeth Gynnar):** I fabanod, plant a phobl ifanc y nodwyd bod angen help ychwanegol arnynt.

- **TRYDYDDOL Cymorth Statudol (Ar Gyrion Gofal):** Ymyriadau i'r rhai sydd mewn sefyllfaoedd cymhleth neu risg uchel y mae angen ymyriadau dwys a diogelu statudol arnynt.

**Llif Angen Dynamig:** Mae'r fframwaith yn pwysleisio nad yw'r lefelau risg na'r anghenion cymorth cysylltiedig yn sefydlog. Mae'n bosibl y bydd babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd yn symud i fyny neu i lawr y pyramid wrth i'w hamgylchiadau newid ac yn seiliedig ar effeithiolrwydd ymyriadau.

** Mae'n hanfodol nodi mai enghreifftiau yn unig yw'r mathau o wasanaethau sydd wedi'u rhestru yn y diagram hwn, ac nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr o bell ffordd nac yn cynrychioli'r amrywiaeth helaeth o wasanaethau a ddarperir ledled Cymru i ddiwallu'r amrywiaeth gymhleth o anghenion a risgiau ymhlith y boblogaeth.*

# Cyflawni

Mae elfennau cyffredin o fewn systemau a gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal a rhyngddynt, ac mae'r rhain wedi'u nodi isod yn ôl y system a'r gwasanaeth.

Y **system** fydd yn rheoli'r gwasanaethau yn gyffredinol, gan gynnwys cynllunio, comisiynu, rheoli a sicrhau mynediad yn gyffredinol o fewn ardal ddynodedig.

Gall hyn fod ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol a gallai gynnwys goruchwylio nifer o wasanaethau gwahanol mewn asiantaethau gwahanol er mwyn sicrhau eu bod yn ategu ei gilydd ac yn diwallu anghenion y boblogaeth. Gall y system sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu pan fydd eu hangen ar y teulu fel na fydd unrhyw oedi o ran cynnydd am fod un ffactor ar ei hôl hi. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau gyfathrebu'n effeithiol am bob baban, plentyn, person ifanc a theulu.

Elfennau craidd **System** Ymyrraeth Gynnar ac Atal effeithiol:

- ❑ Ymarfer sy'n ystyriol o drawma a thrawma-fedrus
- ❑ Gwasanaethau hygyrch a ddarperir yn yr iaith a ffefrir.
- ❑ Prosesau atgyfeirio ac ymadael clir â dull dim drws anghywir.
- ❑ Cyfnodau pontio a llwybrau wedi'u diffinio'n glir.
- ❑ Gwasanaethau sy'n gweithio gyda'r teulu ac yn cefnogi llais, dewis a rheolaeth
- ❑ Dulliau seiliedig ar dystiolaeth a ddarperir â chywirdeb.
- ❑ Cymorth i deuluoedd sy'n seiliedig ar gryfderau ac wedi'i wreiddio yn y gymuned, gyda chymorth arbenigol ac wedi'i dargedu.
- ❑ Darparu amrywiaeth eang o ymyriadau.
- ❑ Wedi'i hintegreiddio i drefniadau partneriaeth ehangach a gwaith amlasiantaethol.
- ❑ Arweinyddiaeth gadarn, dosturiol a chyfunol.
- ❑ Cydleoli a hunaniaeth a rennir, lle y bo'n ymarferol.
- ❑ Trefniadau llywodraethu a rennir, gweledigaeth/gwerthoedd cyson, canlyniadau cyffredin ac iaith gyffredin.
- ❑ Gwerthusiadau allanol, cyd-fonitro, a rhannu data ar yr hyn sy'n gweithio.

- ❑ Trefniadau rhannu gwybodaeth ar waith.
- ❑ Digon o adnoddau cynaliadwy i dargedu blaenoriaethau a datblygu prosiectau mwy arbenigol.
- ❑ Ystwyth a'r gallu i ymateb i newid.
- ❑ Cynlluniau datblygu'r gweithlu sy'n sicrhau gweithlu a werthfawrogir sy'n llawn cymhelliant a brwdfrydedd sydd â'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion cymorth plant a theuluoedd.
- ❑ Ymarferwyr a thimau a gefnogir i alluogi ymarfer myfyriol, cyfleoedd dysgu a chefnogi llesiant.

Mae **gwasanaethau** yn wasanaethau cyhoeddus ac yn gweithio ar lefel unigol neu ar lefel grŵp, a dyma brofiad babanod, plant a phobl ifanc o'r system.
Elfennau craidd **Gwasanaeth** Ymyrraeth Gynnar ac Atal effeithiol:

- ❑ Gwasanaethau hygyrch, amserol ac ymatebol.
- ❑ Ymgysylltu mewn ffordd gydgynhyrchiol â theuluoedd.
- ❑ Gweithio gyda chydsyniad teuluoedd.
- ❑ Y cymorth cywir, ar yr adeg gywir, gan y person cywir.
- ❑ Dulliau atgyfeirio, cyfnodau pontio a llwybrau clir.
- ❑ Diffiniadau clir o'r gwasanaeth.
- ❑ Dulliau seiliedig ar dystiolaeth a ddarperir â chywirdeb.
- ❑ Parhad gofal a rolau gweithwyr allweddol.
- ❑ Perchnogaeth gymunedol a chymorth arbenigol.
- ❑ Ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac yn seiliedig ar gryfderau.
- ❑ Ystwyth ac ymatebol i newidiadau a heriau.
- ❑ Adeiladu ar wydnwch teuluoedd.
- ❑ Monitro/mesur llesiant yn rheolaidd.
- ❑ Cydgynhyrchu, ceisio adborth gan y teuluoedd a'r bobl ifanc dan sylw a'u cefnogi i gymryd perchnogaeth dros wasanaethau.
- ❑ Gweithio ar draws gwasanaethau o fewn y system ehangach.

# Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Chanlyniadau.

Mae gan y ddeddfwriaeth, y rhaglenni, y cynlluniau a'r prosiectau sydd ar waith ledled Cymru eu canlyniadau a'u dangosyddion perfformiad allweddol eu hunain a all gwmpasu un gwasanaeth neu system gyfan; a gallant fod ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol. Byddant hefyd yn defnyddio adnoddau pellter a deithiwyd i ddangos cynnydd ar lefel unigol. Wrth benderfynu beth mae gwasanaeth neu system yn gweithio tuag ato, byddai'n fuddiol ystyried yr enghreifftiau canlynol o ganlyniadau.

Cod Ymarfer ar Fesur Canlyniadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,

| What well-being means | National well-being outcomes |
|---|---|
| Securing rights and entitlements<br><br>Also for adults: Control over day-to-day life | I know and understand what care, support and opportunities are available and use these to help me achieve my well-being<br>I can access the right information, when I need it, in the way I want it and use this to manage and improve my well-being<br>I am treated with dignity and respect and treat others the same<br>My voice is heard and listened to<br>My individual circumstances are considered<br>I speak for myself and contribute to the decisions that affect my life, or have someone who can do it for me |
| Physical and mental health and emotional well-being<br><br>Also for children: Physical, intellectual, emotional, social and behavioural development | I am healthy and active and do things to keep myself healthy<br>I am happy and do the things that make me happy<br>I get the right care and support, as early as possible |
| Protection from abuse and neglect | I am safe and protected from abuse and neglect<br>I am supported to protect the people that matter to me from abuse and neglect<br>I am informed about how to make my concerns known |
| Education, training and recreation | I can learn and develop to my full potential<br>I do the things that matter to me |
| Domestic, family and personal relationships | I belong<br>I contribute to and enjoy safe and healthy relationships |
| Contribution made to society | I engage and make a contribution to my community<br>I feel valued in society |
| Social and economic well-being<br><br>Also for adults: Participation in work | I contribute towards my social life and can be with the people that I choose<br>I do not live in poverty<br>I am supported to work<br>I get the help I need to grow up and be independent<br>I get care and support through the Welsh language if I want it |
| Suitability of living accommodation | I live in a home that best supports me to achieve my well-being |

Cynllun Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru

Drwy weithio gyda'n gilydd, ein nod yw i bob plentyn a pherson ifanc o bob cefndir wneud y canlynol:

- Cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- Cael ei drin yn deg mewn addysg.
- Cael ei gefnogi drwy addysg a hyfforddiant, ac i gael gwaith.
- Cael y cymorth sydd ei angen i gael iechyd meddwl da.
- Cael cyfle teg mewn bywyd.
- Cael cartref diogel da i fyw ynddo.
- Cael y cymorth sydd ei angen arno i aros gyda'i deulu, neu ddychwelyd at ei deulu os oes modd.

CCUHP

Mae'n ymwneud â sicrhau bod gan bawb ei hawliau. Hawliau Dynol a Hawliau Plant fel y'u nodir gan y Cenhedloedd Unedig. Yng Nghymru, mae ein hawliau hefyd wedi'u nodi mewn cyfraith a pholisi'r llywodraeth sy'n ein helpu i wneud y canlynol:

- cadw'n ddiogel rhag niwed
- byw bywyd iach
- cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eich bywyd
- cael eich trin yn deg a pheidio â wynebu unrhyw wahaniaethu.

Enghraifft o Bartneriaeth Awdurdod Lleol – Meysydd Angen i Fabanod, Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

Gall gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal ddefnyddio'r adnodd Meysydd Angen i nodi cynnydd neu bryderon mewn perthynas ag agweddau allweddol ar fywyd plentyn neu deulu. Drwy fapio cymorth yn erbyn y meysydd hyn, ochr yn ochr â defnyddio adnoddau monitro perfformiad perthnasol ac wedi'u dilysu; gall hyn nodi bylchau mewn cymorth, yn ogystal â'r effaith gadarnhaol y mae cymorth yn ei chael ar lesiant a chanlyniadau babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd.

**Safety & Protection**
- Free from harm, abuse, neglect, exploitation
- Stable and secure home environment
- Safe in the community and online

**Emotional Wellbeing & Happiness**
- Loved and nurtured
- Positive relationships with caregivers and peers
- Opportunities for play, joy, and self-expression

**Cognitive & Learning Development**
- Access to quality early years, education and learning
- Support for additional learning needs
- Encouragement for curiosity and creativity

**Physical Health & Development**
- Healthy nutrition, sleep, and physical activity
- Access to health services and developmental checks
- Support for disabilities or chronic conditions

**Communication & Voice**
- Able to express thoughts, feelings, and needs
- Listened to and involved in decisions
- Supported in language and communication development

**Identity & Belonging**
- Sense of self, culture, and heritage
- Inclusion and acceptance
- Opportunities to connect with community and peers

**Family Relationships & Support**
- Positive attachment and parenting
- Family stability and resilience
- Access to family support services

**Financial Wellbeing**
- Adequate housing, clothing, and food
- Financial security and access to benefits
- Support for families in poverty or crisis

**Transitions & Change**
- Support through life changes (e.g. school, bereavement, family separation)
- Preparation for adulthood and independence
- Continuity of care and relationships

Adnoddau Pellter a Deithiwyd (Fframwaith Pellter a Deithiwyd Cymorth Cynnar Caerdydd).

Mae *pellter a deithiwyd* yn derm a ddefnyddir i gyfeirio at y cynnydd a wnaed, o fan cychwyn yr unigolyn. Dyma'r newidiadau sy'n digwydd wrth i bobl symud ar hyd llwybr, h.y. a allwn weld newid (cadarnhaol neu negyddol) o ran nodwedd benodol

(fesuradwy) dros gyfnod penodol o amser? Gall ddangos yr hyn y mae unigolyn wedi ei gyflawni, o gymharu â'i sefyllfa ar ddechrau ymyrraeth. Mae angen i adnoddau:

- Fod yn gadarn o ran eu dyluniad, ac yn ddibynadwy o ran eu defnydd a'u prosesau casglu gwybodaeth.
- Bod yn fesur dilys o'r hyn y maent yn honni ei fesur.
- Mesur rhywbeth sy'n berthnasol i'r ymyrraeth, h.y. gallu mesur yr hyn y mae'r ymyrraeth yn ei dargedu.
- Bod yn ddigon sensitif i fesur newidiadau a gyflawnwyd drwy ymyrraeth pedair wythnos o leiaf.
- Gallu cael eu defnyddio cyn ac ar ôl ymyrraeth, a chynnig y cyfle i geisio sgôr ôl-weithredol drwy waith dilynol gyda'r teulu a gwaith dilynol tymor hwy.
- Bod yn ddilys ac yn ddibynadwy o ran eu dyluniad, fel y gallwn fod yn hyderus y gallwn ddadansoddi grwpiau o ymatebion, h.y. cymharu ymatebion dros amser gan garfan fawr.

# Astudiaeth Achos Ymyrraeth Gynnar ac Atal

## ENGHREIFFTIAU O SYSTEMAU

**Astudiaeth Achos 1: Ynys sy'n wybodus am drawma – Ynys Môn**
Fel "ynys sy'n wybodus am drawma", mae Ynys Môn yn ceisio hyrwyddo cysylltiadau a chydberthnasau i gefnogi'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi ag adfyd neu drawma yn eu bywydau Mae'n ddull system gyfan, gydag iaith, adnoddau a strategaethau cyffredin i edrych y tu hwnt i ymddygiadau, a helpu i gefnogi anghenion sylfaenol plant a'r gymuned yn effeithiol gydag empathi a thosturi. Mae'n deall y gall unrhyw un fod wedi wynebu adfyd a thrawma.

Man cychwyn y gwaith ar Ynys Môn oedd gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion a datblygu iaith gyffredin ar gyfer gwasanaethau plant, asiantaethau gwirfoddol ac asiantaethau statudol a'i hymgorffori yng nghymunedau'r ynys ei hun. Mae'r daith hon wedi'i seilio ar ddull sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n adeiladu ar gysylltiadau, ymgysylltiad, asedau dinesig ac adnoddau naturiol y bobl a'r ynys ei hun, i greu amgylchedd seico-gymdeithasol cadarnhaol a lefel uchel o wydnwch cymunedol.

**Gellir cael rhagor o wybodaeth yn:** Ynys sy'n Ystyriol o Drawma: Ynys Môn

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

**Astudiaeth Achos 2: Cymunedau sy'n Ystyriol o Drawma – "Creu Gwent Decach"**

Mae "Creu Gwent Decach" yn ymdrech gynhwysfawr i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwella ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yn y rhanbarth. Mae'n mabwysiadu dull Marmot, sy'n pwysleisio pwysigrwydd penderfynyddion cymdeithasol iechyd, gan gynnwys cyflogaeth, tai, addysg a'r amgylchedd ffisegol. Nod y fenter yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chreu cymdeithas decach i
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

bawb drwy fynd at wraidd yr anghydraddoldebau hynny.

Wrth fabwysiadu'r dull hwn, defnyddiodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent y tair rhaglen ganlynol a oedd yn bodoli eisoes fel sylfaen i adeiladu arni, i leihau annhegwch o ran canlyniadau i blant yn ystod eu blynyddoedd cynnar: (1) Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (cydnabod pwysigrwydd ymdrin â'r profiadau hyn er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwneud hynny drwy ystyried profiadau cadarnhaol a niweidiol yn ystod plentyndod gan ganolbwyntio ar atal, agweddau cadarnhaol a ffactorau amddiffynnol); (2) Rhaglen Plant Iach Cymru (sy'n sicrhau bod plant yn y blynyddoedd cynnar a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi gan wasanaethau cyffredinol ac arbenigol ar draws y GIG a'i bartneriaid); (3) Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar (sy'n galluogi gwasanaethau a rhaglenni ar gyfer y blynyddoedd cynnar i ddiwallu anghenion y teulu ar yr adeg gywir).

**Ceir rhagor o wybodaeth yn**:
**Marmot Places - IHE**
**Creu Gwent Decach**

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

**Astudiaeth Achos 3: Canolfannau Cymorth Cynnar – Abertawe**

Mae'r pum Canolfan Cymorth Cynnar yn Abertawe wedi'u dylunio yn seiliedig ar y galw a'r 'hyn sy'n bwysig' i deuluoedd. Gan weithio gyda chymunedau, datblygodd Cyngor Dinas Abertawe wasanaethau i helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd yn Abertawe i fyw bywydau hapus, iach a diogel, a chael y cymorth cywir, ar yr adeg gywir, os bydd ei angen arnynt.

Mae'r Canolfannau Cymorth Cynnar yn gweithio gydag unigolion a theuluoedd ac yn cefnogi llesiant drwy ddefnyddio strwythur canolfannau lleol ac un pwynt cyswllt ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Mae'r model yn adeiladu ar y cymorth i deuluoedd a ddarparwyd yn flaenorol, sef y Tîm o Amgylch y Teulu, y Tîm Partneriaethau Teuluoedd ac Evolve. Drwy gyd-leoli'r gwasanaethau hyn a'u dwyn ynghyd mewn un strwythur, gallant sicrhau bod cymorth ar gael, heb ystyried oedran na lleoliad, sydd wedi'i integreiddio â phartneriaid ac yn defnyddio asedau cymunedol i ddarparu'r canlynol:

- Gwaith plentyn neu flynyddoedd cynnar;
- Gwaith ieuenctid;
- Gwaith teulu cyfan.

Maent wedi datblygu un ffurflen atgyfeirio, sef 'Cais gan ymarferydd am wybodaeth, cyngor a chymorth gan y Canolfannau Cymorth Cynnar' neu'r 'Pwynt Cyswllt Unigol'. Dylid defnyddio'r ffurflen hon i gofnodi trafodaethau gweithwyr proffesiynol â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd a nodi'n glir yr hyn sy'n bwysig iddynt, ynghyd â gwybodaeth am eu hamgylchiadau personol, unrhyw risgiau neu faterion a nodwyd, yn ogystal â'r cryfderau a'r mesurau diogelwch sydd eisoes ar waith ac unrhyw rwystrau sy'n atal y teulu rhag cyflawni'r canlyniadau personol a nodwyd ar ei gyfer.

**Ceir rhagor o wybodaeth yn:** Gwasanaethau Ymyrryd yn Gynnar Abertawe
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## ENGHREIFFTIAU O WASANAETHAU

### Astudiaeth Achos 4: Eiriolaeth i Rieni

Nod Eiriolaeth i Rieni yw lleihau nifer y plant sy'n ymuno â'r system gofal yng Nghymru. Mae'r Rhaglen Eiriolaeth i Rieni, a ariennir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i diwygiadau radical i wasanaethau cymdeithasol, yn rhoi dewis a rheolaeth i rieni drwy greu cymunedau tosturiol. Y nod yw grymuso teuluoedd a chadw teuluoedd gyda'i gilydd lle bynnag y bo modd, drwy gymryd camau ataliol a chadarnhaol. Mae'r Rhaglen Eiriolaeth i Rieni yn helpu rhieni i lywio systemau ac i gymryd rhan lawn yn y prosesau gwneud penderfyniadau pan fydd angen i'r gwasanaethau cymdeithasol ymyrryd. (Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth i Rieni).
Mae eiriolaeth i rieni:

- Yn darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol wyneb yn wyneb i'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant am blant a phobl ifanc dan 18 oed
- Yn helpu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth
- Yn cynnig cynrychiolaeth neu gymorth i rieni fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau i benderfynwyr mewn cyfarfodydd anffurfiol a ffurfiol
- Yn cynnig cymorth eiriolaeth i alluogi rhieni i gymryd rhan lawn yn y broses amddiffyn plant
- Yn cefnogi rhieni i lywio systemau'n effeithiol a deall cynlluniau, disgwyliadau a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt a gaiff eu rhoi ar waith gan yr awdurdod lleol
- Yn cynnig y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar rieni ag anawsterau dysgu
- Yn rhoi gwybodaeth glir a hygyrch am hawliau a hawliadau rhieni
- Yn helpu rhieni i nodi eu hanghenion ac yn darparu gwasanaethau ymyrryd drwy eu cyfeirio pan fo angen
- Yn helpu rhieni i ddeall a defnyddio proses gwyno'r awdurdod lleol lle y bo'n briodol
- Yn rhannu gwybodaeth â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol am y themâu/materion sy'n effeithio ar rieni yng Nghymru (gan gynnwys galwadau am newid systemig)
- Yn cynnig model cymorth gan gymheiriaid drwy fforymau rhieni, gan roi cyfle i rieni ennill cymwysterau OCN ym maes eiriolaeth gan gymheiriaid.

Ar hyn o bryd, darperir eiriolaeth i rieni fesul rhanbarth, yn unol ag eiriolaeth statudol i blant, drwy dri darparwr eiriolaeth i rieni:

- Gwasanaethau Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru (Caerdydd a'r Fro a Gwent)
- Y Rhwydwaith Eiriolaeth Rhieni (PAN) (Bae'r Gorllewin)
- TGP Cymru (Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Chwm Taf Morgannwg).

Nod eiriolaeth i rieni yw unioni'r cydbwysedd pŵer rhwng rhieni a gwasanaethau statudol drwy sicrhau dull partneriaeth. Dywed rhieni sydd wedi cael eiriolaeth i rieni
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

wrthym fod ganddynt ddealltwriaeth well o systemau a phrosesau o ganlyniad i gymorth eiriolaeth. Nid ydynt yn llais unigol mwyach, ac maent yn teimlo'n fwy hyderus i ofyn cwestiynau i wasanaethau statudol ac yn cael eu cynnwys yn fwy mewn cynlluniau, trafodaethau a phenderfyniadau. Dim ond helpu i gyflawni nod cyffredinol eiriolaeth i rieni y mae cydberthnasau gwell rhwng rhieni a gwasanaethu statudol, ac mae rhai awdurdodau lleol eisoes wedi nodi bod eiriolaeth i rieni yn cael effaith gadarnhaol ar eu poblogaeth sy'n derbyn gofal.

**Ceir rhagor o wybodaeth yn:**
[Parent Advocacy | Parent Advocacy Services | NYAS Cymru]
[Rhwydwaith Eiriolaeth Rhieni – PAN]
[Gwasanaethau Eiriolaeth Rhieni TGP Cymru]

**~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~**

**Astudiaeth Achos 5: Cyfarfodydd Grŵp Teulu**

Mae Cyfarfodydd Grŵp Teulu yn broses adferol sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n dod ag aelodau'r teulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol ynghyd i wneud penderfyniadau a chynlluniau er lles plentyn neu berson ifanc. Nid cyfarfodydd untro mohonynt, ond proses sy'n cynnwys paratoi, hwyluso, a gwaith dilynol.

Eu nod yw:

- Grymuso teuluoedd i gymryd cyfrifoldeb am gynllunio mewn ymateb i bryderon a godir gan weithwyr proffesiynol.
- Galluogi teuluoedd i ganfod eu hatebion eu hunain gan ddefnyddio eu cryfderau mewnol a rhwydweithiau cymorth.
- Hyrwyddo atebolrwydd, cyd-barch a chynhwysiant.
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc wrth wraidd penderfyniadau.

Caiff Cyfarfodydd Grŵp Teulu eu defnyddio'n gynyddol fel rhan o'r cam ymyrraeth gynnar, cyn bod angen cynnwys gwasanaethau statudol. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar y gred y gall teuluoedd, pan gânt eu cefnogi a'u grymuso, yn aml ddatrys materion yn fwy effeithiol na gwasanaethau allanol ar eu pen eu hunain.

Mae TGP Cymru yn darparu gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu gyda'r Tîm Ymyrraeth Gynnar yn Rhondda Cynon Taf. Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf archwiliad hydredol lle ailymwelwyd â theuluoedd a oedd wedi cael Cyfarfod Grŵp Teulu er mwyn dadansoddi a fu unrhyw newidiadau cadarnhaol parhaus a hirdymor.

Y Canfyddiadau Allweddol

Adolygodd y gwasanaeth peilot statws 25 o deuluoedd a gymerodd ran mewn Cyfarfod Grŵp Teulu yn 2021/2022 ar ddiwedd yr ymyrraeth ac eto ym mis Tachwedd 2024.

Ym mis Tachwedd 2024, o blith y 25 o deuluoedd hyn:

- nid oedd 8 yn cael cymorth gan y gwasanaethau plant mwyach. Yn benodol, cafodd dau o'r achosion hynny eu hisgyfeirio o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a chaewyd yr achosion. Roedd un unigolyn mewn lleoliad preswyl a dychwelodd at ofal ei fam. Ni fu angen unrhyw gamau pellach yn ystod y

cyfnod cyn iddo droi'n 18 oed. Er na ellir priodoli hyn i gyd yn uniongyrchol i'r broses Cyfarfodydd Grŵp Teulu, mae'n amlwg bod y broses honno wedi helpu un plentyn i ddychwelyd adref o leoliad preswyl. Roedd arbediad cost o oddeutu £7,000 yr wythnos yn gysylltiedig â hyn.
- Roedd statws tri theulu yr un peth â'u statws gwreiddiol. Yn un achos, y rheswm dros hyn oedd bod y plentyn wedi cael asesiad ar gyfer y Tîm Plant Anabl, ac roedd y ddau deulu arall yn destun proses Amddiffyn Plant ac roedd eu statws wedi gostwng ac wedi codi unwaith eto.
- Roedd statws tri theulu wedi gostwng o'r broses Amddiffyn Plant i Gynlluniau Gofal a Chymorth ac wedi cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth.
- O blith yr 11 o deuluoedd eraill, roedd tri eisoes yn destun Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus pan wnaed yr atgyfeiriad; yn achos pedwar teulu, roedd yr unigolyn wedi'i leoli gyda gofalwr sy'n berthynas/unigolion cysylltiedig o dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig ac yn achos dau deulu, roedd yr unigolyn wedi'i leoli gyda'i rieni. Unwaith eto, roedd hyn yn cynrychioli arbediad cost o gymharu â lleoliadau maeth allanol. (Aubrey 2024)

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae TGP Cymru yn darparu gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu ymyrraeth gynnar peilot i rieni sydd wedi gwahanu ac nad ydynt mewn cysylltiad â'r gwasanaethau plant. Roedd Castell-nedd Port Talbot wedi nodi bod nifer o rieni a oedd wedi gwahanu naill ai'n cysylltu am gymorth neu'n cael eu hatgyfeirio, fel arfer ar ôl i'r gydberthynas ddirywio i'r fath raddau fel ei bod yn cael effaith negyddol ar eu plant. Mae canfyddiadau cychwynnol y gwasanaeth peilot yn gadarnhaol iawn, gyda rhieni'n datrys problemau heb fod angen cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol. - Gwasanaeth Rhieni Sydd Wedi Gwahanu Castell-nedd Port Talbot

Mae'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio Cyfarfodydd Grŵp Teulu fel rhan o ymyrraeth gynnar yn eang, ac mae'r dystiolaeth o'u heffeithiolrwydd yn cynyddu ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

**Ceir rhagor o wybodaeth yn**:
Gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu Gweithredu Adferol « TGP Cymru

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

**Astudiaeth Achos 6: I Dadau, Gan Dadau – Torfaen**

Rhaglen gymorth 10 wythnos yw I Dadau, Gan Dadau sydd â'r nod o helpu tadau newydd a darpar dadau â phlant hyd at 18 mis oed mewn amgylchedd diogel.

Mae'r rhaglen yn cynnal gweithdai a sgyrsiau wythnosol ar amrywiaeth eang o bynciau i gefnogi tadau ar eu taith fel rhieni. Mae rhai o'r gweithdai yn cynnwys:
- Iechyd a llesiant
- Deiet a maeth
- Gwybodaeth am fydwragedd ac ymwelwyr iechyd
- Seicoleg
- Gamblo a hapchwarae
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Sefydlwyd I Dadau, Ar gyfer Tadau yn dilyn ymchwil gan nifer o sefydliadau, gan gynnwys Fathers Outreach, Tidy Butt, Gwent Psychology, Recoveries 4 All a Newport County in the Community.

Gwnaethant ganfod bod dynion yn elwa ar gael lle diogel i ofyn cwestiynau a dysgu amdanyn nhw eu hunain a'u plant pan fyddant yn dechrau ar eu taith fel tad. Bydd y grwpiau cymorth yn eu helpu i baratoi ar gyfer y newid yn eu bywyd a ddaw pan fydd ganddynt blentyn.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen, bydd tadau yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn grwpiau cymunedol, clybiau a fforymau lleol sy'n addas ar gyfer eu hanghenion.

**Ceir rhagor o wybodaeth yn:** I Dadau, Gan Dadau

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

**Astudiaeth Achos 7: Uwchgyfeirio at wasanaethau Ar Ffiniau Gofal – Partneriaeth Casnewydd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol**

Wrth i anghenion y teulu gynyddu, nododd Panel SPACE fod angen cymorth mwy dwys. Cafodd yr achos ei uwchgyfeirio at y gwasanaethau plant lle cafodd ei atgyfeirio gan weithiwr cymdeithasol at wasanaethau Ar Ffiniau Gofal Partneriaeth Casnewydd, lle datblygwyd cynllun Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ar y cyd â'r teulu a'i weithiwr cymdeithasol.
Drwy gydol y cam hwn:

- Cafodd y teulu ymyriadau ystyriol o drawma wedi'u teilwra at ei anghenion.
- Cafodd y rhiant ei gefnogi gan weithiwr o'r Tîm Therapiwtig i ddeall y cysylltiad rhwng trawma blaenorol a heriau presennol magu plentyn.
- Cafodd y plentyn Therapi Chwarae, a helpodd i leihau achosion o ddiffyg rheolaeth emosiynol a gwella cydberthnasau teuluol.
- Cymerodd y teulu ran mewn Therapi Cydberthnasau Plant a Rhieni (CPRT), gan atgyfnerthu cydberthnasau a gwella cyfathrebu.

**Canlyniadau**

- Ni chafodd statws cyfreithiol y plentyn ei uwchgyfeirio, a chafodd y pryderon eu hisgyfeirio.
- Llwyddodd y teulu i osgoi camau gofal statudol, gan arbed costau sylweddol i'r awdurdod lleol.
- Nododd y rhiant lesiant emosiynol gwell, amodau gwell yn y cartref, a chydberthnasau cryfach.
- Roedd y plentyn yn ffynnu yn yr ysgol a gartref, a gwellodd ei ymddygiad a'i allu i reoli ei emosiynau.
- Creodd y teulu gysylltiadau cymunedol parhaus ac roedd gwasanaethau cymorth cyffredinol ar gael iddo o hyd pan ddaeth yr ymyrraeth i ben.

**Effaith Gwaith Partneriaeth Integredig**
Mae'r achos hwn yn dangos grym system cymorth integredig Casnewydd, lle gwnaed y canlynol:

- Nodwyd yr achos yn gynnar drwy Cyswllt Casnewydd a Phanel Llesiant SPACE, gan atal argyfwng.
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

- Aethpwyd i'r afael ag anghenion cymhleth drwy ymyriadau hyblyg a oedd yn ystyriol o drawma gan Barnardo's a Phartneriaeth Casnewydd.
- Drwy waith cynllunio cydweithredol rhwng gwasanaethau ar bob lefel, llwyddwyd i ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.
- Cafodd y teulu barhad gofal, o gymorth cyffredinol i gymorth wedi'i dargedu a chymorth arbenigol.

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

**Astudiaeth Achos 8: Prosiect Undod NYAS**

Mae Prosiect Undod yn fenter Cymru gyfan a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Diben y fenter yw darparu cymorth dwys sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n ystyriol o drawma, eiriolaeth a chymorth gan gymheiriaid i famau beichiog a mamau newydd â phrofiad o fod mewn gofal. Nod y prosiect yw cynyddu ymgysylltiad â gwasanaethau, cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol, a meithrin sgiliau bywyd a sgiliau cymdeithasol hanfodol – gan helpu i atal plant sy'n cael eu geni i famau â phrofiad o fod mewn gofal rhag ymuno â'r system gofal.
Mae Prosiect Undod yn cynnig pecyn cyfannol o gymorth, gan gynnwys:

- Eiriolaeth a chymorth un i un dwys sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Dull sy'n ystyriol o drawma i helpu menywod ifanc i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgysylltu'n gadarnhaol â gwasanaethau.
- Cyngor a chanllawiau ar gydberthnasau iach.
- Gwaith partneriaeth ag asiantaethau arbenigol sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig.
- Cyfeirio at wasanaethau i ddiwallu anghenion a nodwyd.
- Gwybodaeth am hawliau a hawliadau
- Grwpiau cymorth wedi'u llunio ar y cyd a'u harwain gan gymheiriaid i leihau teimladau ynysig ac ennyn hyder.
- Tystiolaeth a gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am y themâu a'r heriau a wynebir gan famau beichiog a mamau newydd â phrofiad o fod mewn gofal er mwyn helpu i lywio polisi a newid ymarfer.

Gall y fenyw ifanc ei hun, rhywun sy'n ei hadnabod, neu weithiwr proffesiynol o'i dewis wneud atgyfeiriad. Rhaid i'r fenyw ifanc roi cydsyniad ar sail gwybodaeth i'r atgyfeiriad.

*Canlyniadau*
Mae menywod ifanc sy'n cymryd rhan ym Mhrosiect Undod wedi nodi'r canlynol:

- Eu bod yn gwybod mwy am sut i gael gafael ar gymorth priodol
- Gwelliant amlwg yn eu llesiant ers iddynt ddod i gysylltiad â'r prosiect
- Mwy o gyfleoedd i leisio barn pan fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud amdanyn nhw eu hunain a'u plentyn.
- Gwell dealltwriaeth o'u hawliau a'u hawliadau.

Dywedodd un fenyw ifanc:
*"Newidiodd Prosiect Undod fy mywyd. Cyn i mi ddod i gysylltiad â'r prosiect, roeddwn i'n credu mai dim ond rhif ar ffeil oeddwn i. Ar ôl byw mewn gofal drwy gydol fy mywyd, roeddwn i'n meddwl fy mod i'n ddiwerth. Pan wnes i feichiogi, roedd arna i ofn y byddai fy mabi yn cael ei gymryd oddi wrtha i ac na fyddai gen i lais.*
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

*Nawr rwy'n credu ynof fi fy hun, ac yn fy nyfodol, ac mae fy mabi yn hollol hyfryd. Diolch."*
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

**Astudiaeth Achos 9: Prosiect Barod i Ddysgu, Barod i Dyfu**

Mae model gwasanaeth Home-Start Cymru yn canolbwyntio ar rymuso rhieni i feithrin y gwydnwch, yr hyder a'r cysylltiadau i ymdopi â'u heriau, gan atal pethau rhag troi'n argyfwng. Mae cymorth uniongyrchol yn seiliedig ar y cydberthnasau llawn ymddiriedaeth sydd wedi'u meithrin â theuluoedd, sy'n lleihau'r rhwystrau a wynebir gan deuluoedd nad ydynt o bosibl mewn cysylltiad â gwasanaethau ffurfiol, ac yn sicrhau bod problemau'n cael eu datrys yn gynnar. Drwy ddarparu cymorth wedi'i deilwra at anghenion unigol pob teulu, a blaenoriaethu gwaith cydgysylltiedig lle mae staff a gwirfoddolwyr yn cydweithio â gwasanaethau lleol, cyhoeddus a thrydydd sector yn rheolaidd, gellir darparu gwasanaeth cyfannol sy'n diwallu pob angen, gan atal problemau allweddol rhag gwaethygu, megis iechyd meddwl yn dirywio, cydberthnasau teuluol yn chwalu neu ynysigrwydd cymdeithasol, a allai fel arall arwain at gyfnodau aros costus ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac arbenigol.

Mae prosiect Barod i Ddysgu, Barod i Dyfu yn rhaglen beilot newydd arloesol a chydweithredol, sydd ar waith diolch i Grant Arloesi Tlodi Plant a Chefnogi Cymunedau Llywodraeth Cymru, sydd â'r nod o gefnogi plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi ledled ardal Gwent i gyrraedd cerrig milltir datblygiadol allweddol a bod yn barod i ffynnu pan fydd y plant yn dechrau yn yr ysgol.

Drwy weithio gyda theuluoedd â phlant rhwng 18 mis a 3 oed y mae tlodi yn effeithio arnynt, mae Home-Start Cymru yn darparu sesiynau strwythuredig drwy gyfuniad o ymweliadau un i un yn y cartref a grwpiau cyfoedion mewn ysgolion sy'n canolbwyntio ar feysydd allweddol datblygiad plant a meysydd rhyngddibynnol, gan gynnwys:

- Datblygiad corfforol, fel defnyddio'r toiled a gwisgo
- Datblygiad cymdeithasol, personol ac emosiynol, megis chwarae a rhyngweithio cymdeithasol, a deall ac adnabod emosiynau
- Lleferydd, iaith a chyfathrebu, megis ciwiau cyfathrebu a gweithgareddau sy'n seiliedig ar dalu sylw
- Canlyniadau rhieni, gan gynnwys llesiant rhieni a chydberthnasau rhwng babanod a rhieni
- Amgylchedd y cartref, gan gynnwys ffiniau mewn perthynas ag amser o flaen sgrin

Bydd pob teulu hefyd yn cael pecyn adnoddau wedi'i lunio gan arbenigwyr a phartneriaid o bob rhan o'r prosiect, sy'n cynnwys adnoddau sy'n cefnogi pob maes canlyniad allweddol. Mae'r prosiect yn blaenoriaethu dull ymyrraeth gynnar o fynd i'r afael â thlodi fel rhwystr at ddatblygiad parhaus plant ac atal canlyniadau gwael drwy weithio gyda rhieni plant yn eu blynyddoedd cynnar sy'n wynebu anfantais o ganlyniad i dlodi i'w helpu i ddeall y meysydd pwysig hyn, er mwyn meithrin arferion cynaliadwy a defnyddio asedau lleol i'w helpu i baratoi ar gyfer yr ysgol.

Yn ogystal â mesur effaith cymorth uniongyrchol, mae lleisiau teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ym maes y blynyddoedd cynnar ledled Gwent yn bwynt ffocws. Caiff
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

cyfnod ymgynghori trylwyr ei gynnal gyda'r ddau grŵp er mwyn diffinio parodrwydd ar gyfer yr ysgol ac ystyried beth arall y mae angen ei wneud i ddeall yr amodau a'r cymorth sydd ei angen i sicrhau bod pob plentyn yn dechrau'r ysgol yn barod i ffynnu.

Bydd gwerthusiad a'r gwersi a ddysgwyd, a chrynodeb o leisiau'r rhai sy'n rhan o'r prosiect, yn rhoi gwybodaeth am ddatrysiadau effeithiol, yn ogystal ag arweiniad i weithwyr proffesiynol ym maes y blynyddoedd cynnar a rhanddeiliaid ehangach ar ffyrdd o atal tlodi fel rhwystr at ddatblygiad cadarnhaol a chyflawniad addysgol er mwyn cau'r bwlch datblygiadol.

**Gellir cael rhagor o wybodaeth yn** readytolearn@homestartcymru.org.uk

# Ein huchelgais a dyfodol y fframwaith

Bwriad ac uchelgais y fframwaith hwn yw dwyn ynghyd ein profiad a'r holl wersi a ddysgwyd gennym ledled Cymru mewn perthynas â babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio dull system gyfan o gynnal a gwella'r gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal a ddarperir.

Mae angen ymrwymiad cadarn, a amlinellir yn y fframwaith hwn, i gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a lle y bo'n bosibl, i hyn leihau'n ddiogel nifer y babanod, plant a phobl ifanc sy'n ymuno â'r system gofal yng Nghymru.

Yn y pen draw, mae'r fframwaith ymyrraeth gynnar ac atal hwn i Gymru yn cynnig ffordd i sefydliadau ddisgrifio darpariaeth a chymorth a'u lle yn y system, ac yn eu galluogi i rannu hyn â'r holl sefydliadau sy'n anelu at ddarparu'r cymorth cywir, ar yr adeg gywir, yn y ffordd gywir er mwyn atal anghenion babanod, plant a phobl ifanc rhag gwaethygu.

Bydd angen i'r Llywodraeth nesaf ystyried sail y fframwaith hwn ac a yw'r sail honno yn statudol. Rhaid i'r gwaddol sydd gennym yma yng Nghymru o ddarparu gwasanaethau cymorth ymatebol ar draws asiantaethau a sectorau lluosog barhau gydag ymrwymiad i ariannu hyn drwy raglenni sy'n bodoli eisoes a mentrau yn y dyfodol.

Diolch yn fawr i'n holl gydweithwyr sydd wedi cyfrannu at y gwaith o greu'r fframwaith defnyddiol ac effeithiol hwn i Gymru, a fu'n rhan o Is-grŵp Ymyrraeth Gynnar ac Atal y grŵp cyfeirio Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Plant.

Diben y fframwaith hwn yw arwain a llywio newidiadau a gwelliannau i'r cymorth a ddarperir ym maes Ymyrraeth Gynnar ac Atal yng Nghymru yn y dyfodol.